

# CYFEIRNODI YN UNOL Â'R DULL MHRA: CANLLAW FER

Pryd bynnag y byddwch yn cyfeirio at waith rhywun arall yn eich traethawd, eich traethawd hir neu mewn darn arall o ysgrifennu academiaidd, nodwch y manylion llyfryddiaeth mewn troednodyn ar waelod y dudalen a hefyd yn y llyfryddiaeth ar y diwedd.

## Cyfeirnodu mewn troednodiadau

Pan fyddwch yn cyfeirio at lyfr, erthygl mewn cylchgrawn neu ffynhonnell arall am y tro cyntaf, rhowch y manylion llyfryddiaeth *llawn* mewn troednodyn. Wrth gyfeirio at yr un eitem mewn troednodyn diweddarach, defnyddiwch ffurf sy'n fwy cryno ond hawdd ei hadnabod.

### Enghraifft

The Athenian Mercury articulated the suffering of men whose reputations were in decline, and for whom bankruptcy was imminent, providing a new and gendered dimension to the findings of historians who have studied credit systems in the late seventeenth century.<sup>1</sup> These themes provide further evidence, as Peter Earle reminded us several years ago, that the middling sorts were not inevitably rising at this time.<sup>2</sup>

1. Peter Earle, *The Making of the English Middle Class: Business, Society and Family Life in London, 1660-1730* (London: Methuen, 1989), tt. 106-23; Craig Muldrew, 'Interpreting the market; the ethics of credit and community relations in early modern England', *Social History*, 18 (1993), 163-83.

2. Earle, t. 333

Os ceir mwy na thri awdur, teipiwch enw cyntaf yr awdur wedi'i ddilyn gan "ac eraill".

## Nodi rhifau tudalen mewn troednodiadau

Yn eich troednodiadau, mae angen, fel arfer, nodi rhif y dudalen berthnasol yn y gwaith yr ydych yn cyfeirio ato. Os ydych yn dyfynnu neu'n defnyddio syniadau o dudalen benodol *rhaid* i chi nodi rhif y dudalen (oni bai eich bod yn defnyddio e-lyfr nad yw'n dangos rhifau tudalen).

Os ydych yn cyfeirio at *un* dudalen yn unig mewn llyfr, rhowch t. cyn rhif y dudalen - e.e. t. 20.

Os ydych yn cyfeirio at fwy nag un dudalen, rhowch tt. cyn rhifau'r tudalennau, e.e. tt. 20-34.

## **Sut i gyfeirnodu mathau gwahanol o gyhoeddiadau mewn troednodiadau**

### **Llyfrau**

Awdur(on) | *Teitl Llawn y llyfr (mewn llythrennau italig)* | Rhifyn (os nad y cyntaf) | Man cyhoeddi | Cyhoeddwr | Blwyddyn cyhoeddi | Pennod neu rif tudalen os yw hynny'n briodol.

Enghraifft

John Tosh a Sean Lang, *The Pursuit of History: Aims, Methods and New Directions in the Study of Modern History*, 4ydd arg. (Harlow: Longman, 2006), tt. 20-34.

Sylwer y defnyddir y talfyriad arg. ar gyfer 'argraffiad'.

Troednodyn diweddarach

Os ydych yn cyfeirio at yr un llyfr mewn *troednodyn diweddarach* dyfynnwch hwn yn y ffurf ddealladwy fyrraf. Fel arfer bydd enw'r awdur(on) a rhifau'r tudalennau yn ddigonol.

e.e. Tosh a Lang, tt. 50-67.

Os ydych yn cyfeirio at fwy nag un gwaith gan Tosh a Lang yn yr un darn o waith nodwch y teitl (mewn ffurf gryno) yn y troednodyn diweddarach er mwyn osgoi amwysedd.

e.e. Tosh a Lang, *The Pursuit of History*, tt. 50-67.

### **Llyfrau wedi'u golygu**

Os ydych yn dyfynnu llyfr sy'n cynnwys casgliad o draethodau gan wahanol awduron, teipiwch deitl y llyfr yn gyntaf yn y troednodyn cyn enw(au)'r golygydd(ion).

Enghraifft

*Modernism: A guide to European Literature 1890-1930*, gol. gan Malcolm Bradbury a James McFarlane (London: Penguin, 1991), t. 10.

Sylwer y caiff gol. gan ei ddefnyddio ar gyfer 'golygydd gan'.

Enghraifft - troednodyn diweddarach

*Modernism*, t. 21.

## Pennod/adrannau o lyfr a olygwyd

Awdur(on) | 'Teitl y bennod neu adran' (mewn dyfynodau sengl) | yn *Teitl y llyfr (mewn llythrennau italig)* | Rhifyn (os nad y cyntaf) | Golygydd/Golygyddion y llyfr, gydag gol. gan o flaen yr enw(au) | Man cyhoeddi | Cyhoeddwr | Blwyddyn gyhoeddi | Tudalennau rhif y bennod neu adran, gyda tt. o'u blaen. | Rhifau tudalen(nau) y cyfeiriad penodol (os yw'n berthnasol), gyda t. neu tt. o'u blaen.

### Enghraifft

Gwyn A. Williams, 'Locating a Welsh working class', yn *A people and a Proletariat: Essays in the History of Wales 1780-1980*, gol. gan David Smith (London: Pluto Press, 1980), tt. 16-46.

### Troednodyn diweddarach

Os cyfeirir at yr un bennod mewn *troednodyn diweddarach* dylid ei dyfynnu yn y ffurf ddealladwy fyrraf. Fel arfer bydd enw'r awdur a rhifau'r tudalennau'n ddigonol e.e. Williams, tt. 16-46.

Os ydych yn cyfeirio at fwy nag un darn o waith gan Williams yn eich traethawd neu draethawd hir rhwch y teitl yn y troednodyn diweddarach er mwyn osgoi amwysedd e.e. Williams, 'Locating a Welsh working class', t.17.

## Erthyglau mewn Cylchgronau

Awdur(on) | 'Teitl yr erthygl' (mewn dyfynodau sengl) | *Teitl y cylchgrawn (mewn llythrennau italig)* | Rhif y gyfrol | Rhifyn (os yw pob rhifyn o'r cylchgrawn yn dechrau ar dudalen 1) | Dyddiad Cyhoeddi | Rhifau tudalen yr erthygl, heb tt. o'u blaen. | Rhif(au) tudalen mewn cromfachau y cyfeiriad penodol (os yw'n berthnasol), gyda t. neu tt.. o'i flaen

### Enghraifft

James A. W. Heffernan, 'Looking at the monster: "Frankenstein" and film', *Critical Inquiry*, 24.1 (1997) 133-58 (t.135).

### Enghraifft - troednodyn diweddarach

Heffernan, t.142.

Os ydych yn cyfeirio at fwy nag un eitem gan Heffernan yn eich traethawd neu draethawd hir nodwch ran o deitl yr erthygl yn y troednodyn diweddarach: e.e. Heffernan, 'Looking at the monster', t.142.

## Adolygiadau Llyfr mewn Cylchgronau

Awdur(on) yr adolygiad | 'Teitl yr adolygiad (mewn dyfynodau sengl) | adolygiad o | *Teitl y llyfr* (mewn *llythrennau italig*) | gan | Awdur y llyfre reviewed | *Teitl y cylchgrawn* (mewn *llythrennau italig*) | Rhif y gyfrol (Rhifyn (os yw pob rhifyn o'r cylchgrawn yn dechrau ar dudalen 1)). | Dyddiad Cyhoeddi | Rhifau tudalen yr erthygl, heb tt. o'u blaen | Rhif(au) tudalen mewn cromfachau y cyfeiriad penodol (os yw'n berthnasol), gyda t. neu tt.. o'i flaen.

### Enghrefftau

Andrew Nagorski, 'The totalitarian temptation', adolygiad o *The Devil in History: Communism, Fascism and Some Lessons of the 20th Century*, gan V.Tismaneanu, *Foreign Affairs*, 92 (2013), 172-176.

Nid oes teitl gan lawer o adolygiadau llyfr, fel mae'r enghraifft hon yn dangos:

R. J. W. Evans, adolygiad o *A Concise History of Wales*, gan Geraint H. Jenkins, *Welsh History Review*, 24 (2009), 187-189.

## Erthyglau Papur Newydd

Awdur(on), os nodwyd | 'Teitl yr erthygl' (mewn dyfynodau sengl) | *Teitl y papur newydd* (mewn *llythrennau italig*) | Diwrnod, mis a blwyddyn | Adran y papur newydd (e.e. adran D2), os yw'n berthnasol | Rhif(au) tudalen, gyda t. neu tt.. o'i flaen

### Enghraifft

Michael Schmidt, 'Tragedy of Three Star-Crossed Lovers', *Daily Telegraph*, 1 Chwefror 1990, t. 14.

Enghraifft - troednodyn diweddarach

Schmidt, t. 14

Os ydych yn cyfeirio at fwy nag un eitem gan Schmidt yn eich traethawd nodwch deitl yr erthygl yn y troednodyn diweddarach e.e. Schmidt, 'Tragedy of Three Star-Crossed Lovers', t. 14.

## Ffilmiau

Teitl y ffilm (mewn llythrennau italig) | Cyfarwyddwr | Dosbarthwr | Dyddiad

Enghraifft

*The Grapes of Wrath*, cyfarddwydwyd gan John Ford (20th-Century-Fox, 1940).

Enghraifft - troednodyn diweddarach

*The Grapes of Wrath*.

## Tudalennau gwe

Yn gyffredinol, dylid dyfynnu tudalennau gwe (ac eithrio erthyglau mewn cyfnodolion ar-lein) yn y modd canlynol:

Awdur(on) | *Teitl* (mewn llythrennau italig) ) | Blwyddyn cyhoeddi neu y diweddarwyd diwethaf (mewn cromfachau) | <URL>)) | [Dyddiad mynediad] |

Enghraifft

Mary Beard, *The Fall of the Roman Republic* (2011),  
<[http://www.bbc.co.uk/history/ancient/romans/fallofromanrepublic\\_article\\_01.shtml](http://www.bbc.co.uk/history/ancient/romans/fallofromanrepublic_article_01.shtml)>  
[cyrchwyd 20 Mehefin 2012].

Os nad oes awdur personol yn weladwy, gallwch drin y sefydliad sy'n gyfrifol am y dudalen we fel yr awdur. Os ni ellir adnabod awdur, dechreuwch â'r teitl.

Enghraifft - troednodyn diweddarach

Beard, *The Fall of the Roman Republic*.

**Erthyglau cyfnodolion ar-lein** (megis y rhai hynny yng nghronfeydd data JSTOR a Project Muse) yn yr un modd ag erthyglau mewn print. Gallwch ychwanegu dyddiad mynediad ac URL os hoffech.

## Llawysgrifau

Dinas neu dref lle y delir y llawysgrif | Enw'r archif, llyfrgell neu sefydliad arall sydd â'r llawysgrif | Enw'r Casgliad | Rhif y Llawysgrif neu'r Casgliad.

Dylid dyfynnu llawysgrifau mewn casgliadau yn unol â system ddosbarthu'r ystorfa.

Enghraifft

London, British Library, MS Cotton Caligula, D III, fol. 15.

Enghraifft - troednodyn diweddarach

MS Cotton Caligula, D III, fol. 15.

## Llyfryddiaeth

Ar ddiwedd eich gwaith, rhestrwch yr holl ffynonellau yr ydych wedi cyfeirio atynt yn eich troednodiadau ac unrhyw ffynonellau eraill yr ydych wedi'u defnyddio. Mae angen rhoi manylion llyfryddiaeth yn llawn. Mae'r rhestr fel arfer yn nhrefn y wyddor, yn ôl cyfenw'r awdur neu'r golygydd.

Dylai cyfenw'r awdur neu olygydd a enwir yn gyntaf ymddangos cyn yr enw blaen neu'r llythyren flaen, fel y nodir yn yr enghreifftiau isod:

Bradbury, Malcolm a James McFarlane, gol., *Modernism: A guide to European Literature 1890-1930* (London: Penguin, 1991)

Heffernan, James A. W. , 'Looking at the monster: "Frankenstein" and film', *Critical Inquiry*, 24.1 (1997) 133-58

Tosh, John a Sean Lang, *The Pursuit of History: Aims, Methods and New Directions in the Study of Modern History*, 4ydd arg. (Harlow: Longman, 2006)

## Arweiniad Pellach ar Gyfeirnoddi yn null MHRA

Mae'r Canllaw Arddull MHRA gyfan ar gael ar-lein yn <http://www.mhra.org.uk/Publications/Books/StyleGuide/download.shtml>

Mae copïau o'r Canllaw Arddull MHRA hefyd ar gael yn y Llyfrgell.